***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 555 (Cy. 128)

# Y CYFRIFIAD, CYMRU

## Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Mai 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *1 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 3(1) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Ystadegau yn unol ag adran 3(1A)(**2**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1920 p. 41. Diwygiwyd adran 3(1) gan Ran 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50), a chan adran 25 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 (p. 18) ac Atodlen 1 iddi.
(**2**) Mewnosodwyd adran 3(1A) gan adran 25 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac Atodlen 1 iddi.